Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Summerhill
# New Road
# Summerhill
# Wrecsam
# LL11 4TY

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/08/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Summerhill. Mae'n cwrdd yn 'The Institute' ym mhentref Summerhill, yn awdurdod lleol Wrecsam. Mae'r lleoliad yn darparu addysg am bedwar bore'r wythnos rhwng 9.00 y bore a 11.30 y bore yn ystod tymhorau'r ysgol.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 19 plentyn ar unrhyw adeg benodol ac yn derbyn plant rhwng dwy a phedair blwydd oed. Ar hyn o bryd, mae lleiafrif o'r plant tair blwydd oed yn cael eu hariannu ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar. Mae bron pob un o'r plant yn dod o gefndir gwyn Prydeinig ac ychydig iawn ohonynt sy'n siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Ar hyn o bryd, nid oes un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi tri ymarferydd cymwysedig gan gynnwys yr arweinydd. Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym mis Medi 2014.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddiwethaf ym mis Mehefin 2017 a gan Estyn ym mis Mai 2011.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o'r plant yn cyflawni'n gadarn o'u mannau cychwyn
- llawer o'r plant yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)
- llawer o'r plant yn dangos cymhelliant wrth ymateb i weithgareddau difyr a diddorol yn yr holl ardaloedd dysgu
- y rhan fwyaf o'r plant yn ymddwyn yn dda ac maent yn gwrtais i'w gilydd ac oedolion
- ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau pwrpasol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh, corfforol a chreadigol y plant
- disgwyliadau cadarn gan ymarferwyr ar gyfer pob plentyn ac maent yn herio plant yn synhwyrol yn unol â'u hanghenion a'u galluoedd
- addysgu a gofal yr ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd fel tegwch a pharch yn llwyddiannus ymysg y plant
- ymarferwyr yn defnyddio adnoddau yn bwrpasol i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion y plant

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn canolbwyntio'n effeithiol ar wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant
- prosesau hunanarfarnu sefydlog yn sicrhau bod y ddarpariaeth a'r adnoddau yn gwella'n gyson dros amser
- ymarferwyr yn elwa o hyfforddiant perthnasol sy'n cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a deilliannau'r plant
- yr arweinydd yn gwneud defnydd effeithiol o asiantaethau allanol fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin
- partneriaethau pwrpasol yn bodoli rhwng rhieni a gofalwyr a'r ysgolion lleol
- arferion priodol gan y pwyllgor rheoli i oruchwylio a gwerthuso deilliannau'r plant, y ddarpariaeth ac effeithiolrwydd yr ymarferwyr a'r arweinydd

## Argymhellion

A1 Adeiladu ar ddealltwriaeth y plant o'r Gymraeg i sicrhau bod y rhan fwyaf ohonynt yn ymateb yn gyson i holi a thrafodaethau'r ymarferwyr

A2 Darparu cyfleoedd rheolaidd i bob plentyn ddatblygu eu hannibyniaeth yn ystod amser byrbryd

A3 Sicrhau bod arferion monitro a gwerthuso'r pwyllgor rheoli yn drylwyr, rheolaidd a heriol i dargedu gwelliannau cyson yn y lleoliad

A4 Creu cyswllt cadarn rhwng y prosesau hunanarfarnu a thargedau'r cynllun datblygu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o'r plant yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh o fannau cychwyn sydd, ar y cyfan, yn is na'r cyfartaledd disgwyliedig. Mae medrau cychwynnol y rhan fwyaf o'r plant yn isel yn y Gymraeg.

Mae llawer o'r plant yn cyfathrebu'n glir ac yn gwneud yn siŵr bod oedolion a phlant eraill yn eu deall. Maent yn ymateb i drafodaethau ar y cyd, trwy ddefnyddio'r Saesneg ac ychydig o Gymraeg. Mae llawer ohonynt yn hyderus pan fyddant yn nodi nodweddion y tywydd i'w gilydd a threfnu dyddiau'r wythnos yn Gymraeg. O ganlyniad, maent yn cynnal trafodaethau deallus gydag oedolion a chyfoedion wrth iddynt adeiladu tyrrau gyda blociau a pheintio pili-palaod cymesur ar îsl. Mae llawer o'r plant yn gwrando ar gyfarwyddiadau gan eraill ac yn gweithredu arnynt yn dda. Gwelir hyn pan fyddant yn arllwys dŵr i gafnau i symud hwyaid o un pen i'r llall ac wrth iddynt chwilio am drychfilod yn yr ardal allanol gyda chwyddwydrau. Yn ogystal, mae llawer o'r plant yn mynegi eu teimladau a'u dewisiadau'n dda wrth iddynt gytuno ar ba ddinosor i ddewis fel ffefryn a pha lestri i osod ar fwrdd yn yr ardal gartref.

Mae lleiafrif ohonynt yn mynegi eu barnau'n effeithiol wrth chwarae'n ddigymell neu pan fyddant dan arweiniad oedolyn. Er enghraifft, maent yn snipio sbageti â siswrn yn briodol ar ôl ei godi o fowlenni gyda gefeiliau. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigon hyderus eto wrth wneud hyn a thasgau tebyg, a Saesneg yw'r prif gyfrwng iaith ymysg y plant ac wrth iddynt ymateb i holi'r ymarferwyr.

Mae llawer o'r plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau wrth eistedd a thrafod y cynnwys gyda'i gilydd ac oedolion yn yr ardal lyfrau. Maent yn trafod cymeriadau a digwyddiadau yn synhwyrol gydag oedolion a chyfoedion ac yn trin y llyfrau fel darllenwyr hyderus. O ganlyniad, maent yn ymateb â diddordeb i gynnwys storïau amrywiol fel hanes plant o bob cwr o'r byd.

Mae llawer o'r plant yn gwneud marciau'n bwrpasol gydag amrywiaeth o gyfryngau fel sialc, creonau, pensiliau a phaent. Maent yn mwynhau eu profiadau ysgrifennu cynnar ac mae ychydig ohonynt yn ceisio ysgrifennu eu henwau ac archebion o fwydlenni'n annibynnol. Mae lleiafrif o'r plant yn esbonio diben ysgrifennu yn synhwyrol ac yn y cyd-destunau cywir, er enghraifft wrth iddynt wneud marciau gyda chreonau wrth ddilyn teithiau ceir ar bapur hir.

Mae llawer o'r plant yn defnyddio iaith fathemategol yn effeithiol ac mewn cyd-destunau cywir. Maent yn cyfrif, yn adnabod ac yn enwi rhifau hyd at dri yn effeithiol. Mae rhan fwyaf o'r plant yn trafod nodweddion siapiau gwahanol yn dda ac yn nodi'r gwahaniaethau sy'n bodoli rhyngddynt yn ddeallus. Mae llawer ohonynt yn dewis offer a deunyddiau perthnasol i ddatrys problemau mathemategol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn defnyddio bwcedi a thywod i gymharu llawn, gwag a hanner llawn. Mae llawer o'r plant yn cymharu siapiau dau ddimensiwn a thri dimensiwn a gwrthrychau bach, mawr a chanolig yn hyderus. Yn ogystal, maent yn trefnu sticeri'n dda i gyfatebu â rhif penodol a grwpio mathau gwahanol o wrthrychau yn ôl siâp a lliw yn fwriadus, fel ceir yn y garej.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn dechrau defnyddio technoleg yn llwyddiannus wrth ddefnyddio llechi a theganau electronig, bocs golau, recordydd llais a chamerâu. Maent hefyd yn defnyddio meddalwedd addysgol ac apiau ar y llechi a'r cyfrifiadur i ddatblygu eu medrau TGCh a'u medrau echddygol manwl yn effeithiol.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio'u medrau corfforol yn llwyddiannus wrth ddringo a llithro'n egnïol ar gyfarpar anturus a gyrru cerbydau a beiciau yn frwdfrydig. Mae llawer o'r plant yn datblygu medrau meddwl a chreadigol da trwy weithgareddau diddorol sy'n effeithio'n bwrpasol ar eu dysgu a'r safonau y maent yn eu cyflawni. Maent yn gweithio'n ddeallus gydag eraill wrth ddyfrhau mefus a ffa yn yr ardaloedd plannu ac yn defnyddio glud a phapur lliwgar i bortreadu cenhinen Bedr. Yn ogystal, maent yn gwrando ar gerddoriaeth fel canu corawl o Gymru yn astud ac yn ymateb yn frwdfrydig i hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd yn y Gymraeg. Maent yn creu synau tawel a swnllyd gyda thaclau'r gegin yn yr ardal allanol ac yn esbonio'r gwahaniaeth rhyngddynt yn bwrpasol. Yn ogystal, maent yn cerflunio â thoes i adlewyrchu a chymharu hydau lindys byr, hir a chanolig.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn uniaethu'n effeithiol ag oedolion ac ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd a gadael y lleoliad. Mae llawer ohonynt yn dangos cymhelliant wrth ymateb i weithgareddau difyr a diddorol yn yr holl ardaloedd dysgu. O ganlyniad, maent yn canolbwyntio'n bwrpasol ar eu dysgu ac yn cyflawni'n dda.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn rhannu a gweithio'n synhwyrol gyda'i gilydd. Maent yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at brofiadau newydd, fel arbrofi â dŵr, plannu llysiau, ffrwythau a blodau yn yr awyr agored a recordio lleisiau ei gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dechrau mynegi barnau a hoffterau personol yn synhwyrol. Mae hyn yn weladwy wrth iddynt benderfynu parhau â thasgau penodol neu ddechrau gweithgareddau newydd o'u dewis eu hunain. Maent yn ddeallus wrth nodi pa dasgau ymarferol sydd o'r diddordeb mwyaf iddynt fel palu yn y tywod neu uno blociau o liwiau tebyg. O ganlyniad, mae llawer o'r plant yn ddysgwyr hyderus sy'n gweithio'n annibynnol a chydwybodol yn ystod gweithgareddau chwarae.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn ymddwyn yn dda ac maent yn gwrtais i'w gilydd ac oedolion. Maent yn dangos parch a chyfrifoldeb wrth ymateb yn synhwyrol i ymarferwyr yn ystod amser cylch. Mae bron pob un ohonynt yn gwrando'n astud ar oedolion wrth y bwrdd yn ystod amser byrbryd a phan fyddant yn trefnu eu bagiau a'u cotiau ar begiau wrth gyrraedd a gadael y lleoliad. Ar ôl defnyddio'r toiled, chwarae anniben a gweithgareddau yn yr awyr agored, mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo'n drylwyr heb ormod o anogaeth gan ymarferwyr. Maent yn ddoeth ac yn gwybod bod glendid yn bwysig i osgoi heintiau drwg er mwyn cynnal bywydau iach.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm eang, sy'n adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn effeithiol. Mae'r holl brofiadau dysgu yn diwallu diddordebau ac anghenion y plant yn ddeallus drwy ddarparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddysgu'n

gynhyrchiol. O ganlyniad, maent yn darparu cyfleoedd da i blant gyfrannu eu syniadau at y cynllunio yn ystod amseroedd cylch a thrafodaethau cyson wrth gyflawni tasgau. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r cyfle i blant arwain y trafodaethau ynglŷn â chylch bywyd pili-pala.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau pwrpasol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant. Maent yn galluogi plant i ddewis offer addas i ddatrys problemau ymarferol sy'n gysylltiedig â'r thema gyfredol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n dda â'r plant i drafod nodweddion gwahanol ddinosoriaid ac i goginio'n greadigol wrth y gegin fwd.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd difyr i blant fynegi eu barnau eu hunain ac i ddatblygu eu medrau creadigol a mynegiannol yn llwyddiannus. Maent yn annog y plant i chwarae rôl yn yr ardal gartref yn fwriadus. Maent yn canolbwyntio ar fedrau ymchwiliol yn effeithiol yn yr ardaloedd darganfod, fel darparu cyfleoedd i ddefnyddio chwyddwydrau a thynnu lluniau â chamerâu. O ganlyniad, mae'r gweithgareddau hyn yn adeiladu'n systematig ar ddealltwriaeth a medrau presennol y plant yn effeithiol.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn ddefnyddiol. Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn fodelau da o'r iaith. Maent yn cynorthwyo'r plant sy'n dechrau dysgu'r iaith yn synhwyrol trwy ailadrodd geiriau a phatrymau iaith cyfarwydd yn gyson. Maent yn defnyddio strategaethau effeithiol Mudiad Meithrin i hybu defnydd o'r Gymraeg. O ganlyniad, mae dealltwriaeth llawer o'r plant o'r Gymraeg yn datblygu'n briodol.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru yn llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen a choginio prydau bwyd traddodiadol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh y plant yn bwrpasol. Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd cadarn i'r plant ddefnyddio ystod o offer fel gliniadur a llechi a theganau electronig. Mae pob ymarferwr yn herio'r plant yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio meddalwedd ac apiau pwrpasol yn y Gymraeg a chaledwedd addysgol i ddatblygu medrau TGCh cynnar a rheolaeth y plant o gyfarpar technolegol yn llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol y plant yn synhwyrol, er enghraifft drwy adael iddynt ddringo a llithro ar gyfarpar anturus a chwarae'n fywiog yn yr ardal allanol. Yn ogystal, mae pwyslais effeithiol ar ddatblygu creadigrwydd y plant trwy arbrofi â phaent, a chwarae rôl wrth y gegin fwd a'r ardal adeiladu.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Mae'r profiadau'n cynnwys ymweliadau i'r llyfrgell deithiol a theithiau cerdded yn y parc gwledig lleol. Mae nifer o ymwelwyr yn ymweld â'r lleoliad, fel swyddogion y gwasanaethau brys, un o staff archfarchnad y dref a glanweithydd deintyddol, sy'n darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddysgu am rolau pobl yn eu cymuned.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr holl ymarferwyr ddealltwriaeth dda o athroniaeth y cyfnod sylfaen ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i sicrhau bod y gofynion yn cael eu bodloni. Maent yn darparu ystod eang o gyfleoedd i blant ddysgu trwy chwarae a phrofiadau ymarferol, yn yr adeilad a'r ardal allanol. O ganlyniad, mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac yn ei gweithredu'n ddeallus.

Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau cadarn ar gyfer pob plentyn ac maent yn eu herio'n synhwyrol yn unol â'u hanghenion a'u galluoedd. Maent yn ymyrryd yn chwarae'r plant yn ôl yr angen yn synhwyrol, er mwyn sicrhau eu bod yn deall y dasg, ac yn rhannu a chydweithio ag eraill. Mae hyn yn cymell y plant i berfformio ar eu gorau'n gyson yn ystod tasgau ffocws a gweithgareddau parhaus.

Mae'r ymarferwyr yn holi'r plant yn dda er mwyn datblygu eu medrau cyfathrebu, rhif a TGCh. Maent yn amseru sesiynau torfol yn effeithiol i gynnal diddordeb pob un plentyn yn bwrpasol. O ganlyniad, nid yw'r plant yn aflonyddu yn ystod amser cylch a sesiynau canu.

Mae'r ymarferwyr yn cyfarch plant yn gynnes ac yn fywiog wrth iddynt gyrraedd, ac mae'r bywiogrwydd hyn yn parhau trwy gydol y sesiynau. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad y plant yn gadarnhaol. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn yr holl weithgareddau yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn dosrannu eu cyfrifoldebau rhwng yr ardaloedd yn yr adeilad a'r ardal allanol yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r plant yn cael cyfleoedd addas a di-dôr i symud yn annibynnol rhwng yr ardaloedd dysgu ar adegau penodol.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer asesu cyflawniadau plant yn gywir a defnyddiol. Mae'r ymarferwyr yn cofnodi asesiadau dyddiol yn rheolaidd a chyson. Maent yn trafod gyda'r plant beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith yn ystod tasgau ffocws yn synhwyrol. Maent yn cofnodi arfarniadau a thrafodaethau dyddiol yn effeithiol yn llyfrynnau'r plant. Mae'r ymarferwyr yn cysylltu'r dystiolaeth yn gydwybodol â deilliannau plant unigol. Mae hyn yn arwain yn uniongyrchol at gynllunio tasgau, sy'n targedu'r camau nesaf yn nysgu plant yn dda.

Mae'r ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol yn anffurfiol gyda rhieni a gofalwyr ar ddiwedd y sesiwn. Mae'r lleoliad yn darparu manylion defnyddiol am gynnydd eu plant i rieni cyn iddynt adael y lleoliad i fynd i'r ysgol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio sesiynau torfol yn frwdfrydig sy'n annog y plant i gyfarch ei gilydd, i fyfyrio am deimladau eraill a dweud diolch.

Mae addysgu synhwyrol yr ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd fel tegwch a pharch yn llwyddiannus ymysg y plant. Maent yn atgyfnerthu pwysigrwydd y gwerthoedd hyn ym mywyd dyddiol y lleoliad wrth i blant linellu ac aros eu tro i olchi eu dwylo a rhannu adnoddau.

Mae'r defnydd o 'helpwyr y dydd' yn dyletswyddo cyfrifoldebau i unigolion ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr iddynt feithrin cyfrifoldeb yn eu tro. Fodd bynnag, er bod y plant yn cael cyfle i osod y llestri yn eu tro, nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i weini ei gilydd a'u cyfoedion o amgylch y bwrdd bwyta yn ddyddiol.

Mae gan ymarferwyr drefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles y plant ac maent yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn gadarn. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad a lles cyffredinol y plant ac yn cefnogi eu dysgu'n llwyddiannus, fel dangos cwrteisi i'w gilydd wrth fwyta byrbrydau. O ganlyniad, mae'r plant yn deall bod ffrwythau a llysiau'n rhan o ddiet synhwyrol. Yn ogystal, maent yn trafod pwysigrwydd cadw'n heini a bod gweithgareddau i gyflymu'r galon yn yr ardal allanol ac yn y neuadd yn effeithio'u bywydau'n bositif.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cardfwrdd, plastig a bwyd. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn bwrpasol.

Mae ymarferwyr yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw aflonyddwch neu ymddygiad annerbyniol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion ac maent yn gofyn yn aml am gymorth a chefnogaeth i gwblhau gweithgareddau. Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal diwyd o blant pan fyddant yn cyrraedd a phan fyddant yn cael eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn drwyadl pan fyddant yn ymuno ac yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Adolygir cynnydd y plant yn rheolaidd a chaiff eu mannau cychwyn eu nodi'n drylwyr gan ddilyn canllawiau proffil y cyfnod sylfaen. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn gyfarwydd iawn â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant, ac yn eu defnyddio'n bwrpasol i gefnogi unigolion gyda chefnogaeth arbenigol. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn targedu plant penodol gyda chymorth ychwanegol yn effeithiol, pan fo'r angen yn codi.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol sy'n hyrwyddo ethos gofalgar trwy ei holl weithgareddau dyddiol. Mae'r ymarferwyr yn pwysleisio'n effeithiol fod cydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth yn bwysig yn ein cymdeithas ni. Mae'r lleoliad yn cyflawni hyn yn effeithiol trwy ddathlu gwyliau o bob cwr o'r byd fel y Flwyddyn Newydd Dsieiniaidd ac astudio'r gwahaniaethau sy'n bodoli ym mywydau plant ein byd.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud yn siŵr bod pob un plentyn yn cael yr un cyfle i elwa o weithgareddau difyr yn yr ardaloedd dysgu yn yr adeilad ac yn yr ardal allanol. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn adnabod cryfderau unigolion yn dda ac yn ymateb i'w hanghenion unigol yn gydwybodol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio ystod eang o adnoddau diddorol i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion y plant yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio'r adnoddau hyn yn effeithiol mewn gweithgareddau parhaus, tasgau â ffocws a chyfleoedd i gyfoethogi'r dysgu. Maent yn galluogi'r plant i ddefnyddio'r adnoddau'n annibynnol, ac mae hyn yn datblygu eu synnwyr o gyfrifoldeb yn ddeallus.

Mae'r adeilad o ansawdd da, yn lân ac yn cael ei gynnal yn effeithiol. Mae'r ardal awyr agored yn ysgogol ac yn cynnwys ardaloedd tyfu a phlannu ac offer anturus ac arbrofol. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer defnyddio'r ardal yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn defnyddio'r ardal leol a'r pentref yn llwyddiannus i ychwanegu at brofiadau dysgu plant, fel ymweliadau i'r parc cyfagos.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn frwdfrydig ac yn arwain y lleoliad yn effeithiol. Mae ganddi weledigaeth bwrpasol sy'n sicrhau bod yr addysgu, y gofal, y defnydd o'r Gymraeg gyda'r plant a'r dysgu yn gadarn. Mae hi'n cydweithio'n llwyddiannus gyda'r ymarferwyr eraill. Ar y cyd, maent yn darparu'n gydwybodol ac yn cynnal arferion cyson ym mhob sesiwn. Maent yn glynu at amserlen benodol ac yn trefnu ardaloedd dysgu diddorol tu mewn a thu allan i'r adeilad. Mae gweithdrefnau rheolaethol yr arweinydd yn hyrwyddo a chynnal gwelliannau yn fuddiol, fel datblygu gwell ddarpariaeth yn yr ardal allanol a gwella'r cyfarpar a meddalwedd TGCh.

Mae amcanion a pholisïau'r lleoliad yn canolbwyntio'n glir ar sicrhau darpariaeth effeithiol a rheolaidd. Mae'r ymarferwyr yn deg a thyner wrth ddelio â phlant. Mae ganddynt ddisgwyliadau synhwyrol o bob un plentyn ynglŷn â'u hymddygiad, eu parodrwydd i weithio a'u cyflawniadau. Maent yn llwyddo i'w cymell tuag at welliannau mewn ffyrdd cadarnhaol a chefnogol. O ganlyniad, mae arferion dyddiol yr ymarferwyr yn bodloni anghenion y plant ac yn hyrwyddo eu llwyddiannau'n ddeallus.

Mae'r arweinydd yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad i sicrhau gwelliannau i'r ddarpariaeth. Yn ddiweddar, mae hyn yn cynnwys datblygu arferion asesu trwy ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen yn effeithiol a chreu gwelliannau yn yr ardaloedd dysgu. Mae hyn yn cynnwys darparu cyfleoedd difyr i wneud marciau ac arbrofi â rhifau a siapiau. O ganlyniad, mae'r arweinydd yn canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu strategaethau llythrennedd a rhifedd.

Mae'r arweinyddiaeth, sy'n cynnwys pwyllgor rheoli sefydlog, yn sicrhau bod yr adnoddau ar gyfer y plant yn ddiddorol a chyfredol. Mae'r arweinydd ac un o'r ymarferwyr yn rhannu rôl y person cofrestredig, a'r ddwy ohonynt sydd, mwy neu lai, yn arwain y pwyllgor rheoli. O ganlyniad, nid oes ffocws digon penodol yn perthyn i'w cyfarfodydd ac nid yw'r pwyllgor rheoli'n gweithredu'n ddigon effeithiol eto fel ffrindiau beirniadol.

Mae gweithdrefnau dyddiol y lleoliad yn sicrhau bod diffiniad clir o gyfrifoldebau gan yr ymarferwyr. Maent yn brofiadol ac yn deall eu rolau'n llawn ac yn gweithio'n ddiwyd fel tîm. Mae trefniadau lleoliad i oruchwylio a gwerthuso'r ddarpariaeth a gwaith yr ymarferwyr a'r arweinydd yn datblygu'n briodol ac yn cychwyn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau plant.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gweithdrefnau hunanarfarnu'r lleoliad yn datblygu'n dda. Mae'r arweinydd, dan arweiniad yr awdurdod lleol, wedi sefydlu trefniadau cyson i fonitro deilliannau'r plant a'r ddarpariaeth drwy weithdrefnau cyson dros gyfnod o ddwy flynedd. O ganlyniad,

mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu yn bodoli sydd wedi arwain at welliannau cyson i waith a darpariaeth y lleoliad.  Er enghraifft, maent wedi datblygu'r ardaloedd dysgu a chynllun y neuadd, i ddarparu tasgau ffocws a gweithgareddau sy'n cyfoethogi dysgu'r plant yn fwriadus.

Mae'r ymarferwyr yn ystyried barnau ei gilydd, rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn effeithiol.  O ganlyniad, mae gwelliannau amlwg wedi deillio o'r ystyriaethau hyn, sydd wedi gwella'r asesu dyddiol ac addysgu'r ymarferwyr, parthed patrymau iaith a geirfa i gyfoethogi dealltwriaeth y plant o'r Gymraeg.

Mae cynllun datblygu'r lleoliad yn nodi meysydd priodol ar gyfer gwella.  Mae'r arweinydd yn blaenoriaethu gwariant yn synhwyrol, yn unol â'r camau gweithredu a nodwyd ar gyfer gwella.  Fodd bynnag, nid yw'r targedau yn y cynllun datblygu bob amser yn deillio'n uniongyrchol o weithdrefnau hunanarfarnu'r lleoliad.  Er bod gweithdrefnau cadarn yn eu lle, nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn cynnwys digon o fanylder ynglŷn â pham mae angen gwella rhai meysydd ymhellach a sut maent wedi llunio ambell darged penodol.

Mae'r holl ymarferwyr yn awyddus i dderbyn syniadau newydd gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol parthed y ddarpariaeth a'r swyddog Mudiad Meithrin ynglŷn ag agweddau rheolaethol.  Maent yn gweithredu'n rheolaidd ar eu cyngor.  Mae hyn yn arwain at welliannau buddiol, fel defnyddio proffil y cyfnod sylfaen yn ddeallus i gyfrannu at yr arferion asesu a nodi mannau cychwyn perthnasol ar gyfer y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae'r lleoliad yn cydweithio'n effeithiol ag ystod o bartneriaid defnyddiol.  Mae'r arweinydd yn gweithio'n agos gyda nhw i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant.  Mae'r cysylltiadau â'r awdurdod lleol a Mudiad Meithrin wedi eu sefydlu'n dda.  Mae'r partneriaethau hyn yn cefnogi a herio'r lleoliad i ddatblygu a gwella'i arferion yn effeithiol, yn enwedig ar wella'r asesu, cynllunio'n drwyadl a bodloni gofynion y cyfnod sylfaen.  Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn defnyddio arbenigedd asiantaethau allanol i gefnogi unigolion a grwpiau penodol o blant yn dda.  Yn ogystal, mae'r asiantaethau yn darparu cymorth gweinyddol a hyfforddiant cyfredol i gefnogi'r lleoliad yn bwrpasol.

Mae cysylltiadau cadarnhaol yn bodoli â'r ysgolion lleol.  Mae hyn yn cefnogi'r trefniadau pontio'n effeithiol.  Mae'r lleoliad yn defnyddio systemau trwyadl ac ymweliadau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth bersonol ac asesiadau'r plant o un sefydliad i'r llall.  O ganlyniad, mae'r trefniadau o fudd i'r plant wrth iddynt ymgynefino yn eu hysgolion newydd.

Mae'r holl ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad.  Maent yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd ac effeithiol am bob agwedd ar waith y lleoliad, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol.  Mae'r lleoliad yn eu hannog i gynnig eu barn ar faterion i wella'r lleoliad trwy holiaduron a thrafodaethau cyson.

Mae ymarferwyr yn cysylltu a gweithio ag ystod eang o bartneriaid eraill sy'n gwneud cyfraniadau pwysig a gweithredol at wella'r ddarpariaeth.  Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n cefnogi'r lleoliad â hyfforddiant cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd a hyfforddiant ynglŷn ag amddiffyn plant.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r arweinydd yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar wella pob agwedd ar waith y lleoliad trwy ddefnyddio ymarferwyr yn ddoeth a dyrannu adnoddau'n effeithiol.  Mae hi'n sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys, gyda hyfforddiant defnyddiol, i fodloni anghenion y plant yn bwrpasol.  Mae'r gweithdrefnau rheoli perfformiad yn gymharol newydd ac maent yn dechrau effeithio ar arferion dyddiol y lleoliad yn fwriadus.  O ganlyniad, maent yn cefnogi'r profiadau dysgu diddorol a'r addysgu cadarnhaol yn well erbyn nawr.

Mae arferion rheoli yr arweinydd yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn synhwyrol.  Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar gynnig profiadau difyr ac adnoddau diddorol i gefnogi dysgu'r plant yn dda, fel caledwedd a meddalwedd TGCh ac ardaloedd tyfu a phlannu yn yr awyr agored.  O ganlyniad, mae'r lleoliad yn gymuned ddysgu lwyddiannus, lle mae cydweithrediad effeithiol rhwng yr holl ymarferwyr sy'n gwella deilliannau'r plant.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn defnyddio'r gyllideb yn ddeallus ac yn blaenoriaethu gwariant yn unol â thargedau yn y cynllun datblygu yn effeithiol.  Maent yn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant.  Maent yn gwneud defnydd synhwyrol o grantiau allanol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y plant, fel cegin fwd a llyfrau deniadol.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian oherwydd y cynnydd cadarnhaol a wna'r plant o'u mannau cychwyn, y ddarpariaeth bwrpasol sydd ar gael i'r plant a'r arweinyddiaeth effeithiol.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGC** | Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |